CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
14 Ionawr 2015 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL
Cyng I Roberts JP, R G Parry, S Parry, I Rowlands, K Humphreys, D Michael, D Rees (Cyngor Sir)

YMDDIHEURIADAU
Cyng A Michael, N Highley, C Ll Thomas

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP.

Cynhaliwyd un funud o dawelwch er cof am Mr Hughie Edwards

DATGAN DIDDORDEB - Dim.

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 12 Tachwedd 2014
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12 Tachwedd 2014, Cyng I Rowlands yn cynnig a Cyng K Humphreys yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae'r clerc wedi datgan diddordeb am grant a bydd yn cyflwyno cais llawn.
Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw
Cysgodfan Bws (glanhau) - mae'r gwaith wedi cael ei wneud o dan "Community Payback"
Cysgodfan Bws (yswiriant) - mae'r clerc yn disgwyl gwybodaeth gan DVLA
Maes chwarae (twll - pridd) - mae'r gwaith wedi cael ei wneud.
Lon Salem - Trafodwyn cwyn am dwr ar y ffordd. Bydd Cyng R G Parry yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir

ADRODDIAD Y CADEIRYDD-
Soniodd y Cadeirydd am teulu Croft yn 23 Bro Mynydd, Bryngwran. Mae'r teulu yn llosgi rwber yn rheolaidd yn eu gardd a deimlir i fod yn risg i iechyd a diogelwch i'r gymuned. Mae'r cyngor hefyd yn deall y gallai hyn fod yn torri'r rheoliadau tenantiaeth. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
Cynllunio
16C197A cais llawn i ddymchwel y sied bresennol ynghyd a chodi annedd newydd a creu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dridwen, Bryngwran - dim sylwadau.
Adran Polisi
Fforwm Cyswllt - cyfarfod 21.01.15 - gwybodaeth yn unig
Adran Refeniw
Precept 2015/16. Penderfynwyd peidio codi y precept

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Chwefror 2015

GOHEBIAETH YCHWANEGOL
Dim

MATERION ARIANNOL
Penderfynwyd talu y canlynnol - Communities First £129.00 (llenwi twll yn y maes chwarae), Rhys Williams Torri gwair £1494.50

MATERION ERAILL
Twnnel Helyg - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Arwyddion ceffylau - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
Tender - penderfynwyd cynnig estyniad (contract torri gwair) am blwyddyn i Mr Rhys Williams (£1494.50)
Scottish Power - dywedodd Cyng K Humphreys bod rhan o Bryngwran wedi bod heb trydan yn ddiweddar. Dywedodd Scottish Power dwy flynedd yn ol bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatrys y problem. Gofynwyd i'r Clerc dod ar mater at sylw Scottish Power.
Bocsys ailgylchu - Trafodwyn cwyn ynghylch bocsys ailgylchu ddim yn cael ei ddychwelyd i'r lleoliad gwreiddiol ac yn cael eu difrodi gan staff casglu y Cyngor Sir. Bydd y Clerc yn dod ar mater ay sylw yr adran gwastraff

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Chwefror 2015